TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# EAL Dilyniant mewn Plymio a Gwresogi Lefel 2



### Yn gryno

Mae'r cwrs Plymio Lefel Cynnydd yn rhoi mewnweediad eang, ond manwl, i chi ar waith a sgiliau plymer. Bydd y cwrs hwn yn eich paratoi at yrfa fel plymer yn y diwydiant adeiladu.

### Dyma'r cwrs i chi os...

... Rhai sydd eisiau gyrfa fel plymer

... Rhai sydd eisiau mynd ymlaen i astudio cymhwyser Lefel 3 mewn Plymio

... Rhai sydd eisiau ennill sgiliau ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol am blymio

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs Lefel Cynnydd mewn Astudiaethau Plymio yn cynnig cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth i safon uchel sy'n cael ei gydnabod gan y diwydiant.

Byddwch yn dysgu sut i ddelio gyda pheipiau sy'n gollwng, a systemau dwr a draenio yn ein gweithdai llawn offer.

Byddwch yn astudio nifer o unedau yn ystod y cwrs, yn cynnwys:

Egwyddorion gwyddonol ar gyfer plymio domestig, diwydiannol a masnachol
Prosesau plymio cyffredin
Systemau dwr oer
Systemau dwr poeth domestig
Glanweithdra
Systemau gwres canolog
Systemau draenio

Cyflwynir y cwrs trwy sesiynau ymarferol mewn cyfleusterau gweithdy rhagorol a gwersi theori i danategu'r wybodaeth a ddysgwyd yn y sesiynau ymarferol.

Byddwch yn cael eich asesu trwy brosiectau ymarferol a phrofion ar-lein ac ysgrifenedig, ac ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Lefel 2 mewn Astudiaethau Plymio

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gael lle ar y cwrs, byddwch angen City and Guilds  Lefel 2 gradd sylfaen mewn Plymio a, naill ai TGAU Mathemateg/Rhifedd Mathemateg, neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg Gradd C neu uwch.

Mae'n rhaid i chi fod ag awydd i weithio yn y diwydiant adeiladu. Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs Lefel Cynnydd mewn Astudiaethau Plymio, gallwch ddatblygu eich sgiliau ymhellach gyda prentisiaeth ar Lefel 3, neu gwrs Sylfaen Nwy, neu Lefel 3 Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig neu Lefel 3 Peirianneg Sifil.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i chi brynu Offer Amddiffynnol Personol (PPE) addas a fydd yn costio tua £40.00, yn ogystal â'ch offer ysgrifennu eich hun.